**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (23)**

**Dydd Mawrth, 7 Hydref 2003**

**AGENDA**

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad Busnes**

Cliciwch yma i weld y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 3**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Gwerthuso'r cynllun nofio di-dâl - *GOHIRIWYD***

**Eitem 4**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Middleton - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

**Eitem 5**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Trafodiad Hysbysadwy dan Reol Sefydlog 19.20 ar Drosglwyddo Stoc Pen-y-bont ar Ogwr**

**Eitem 6**
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno.***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 23.10, 23.11 a 22.25 Reoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm Lefel Gweddillion mewn Cnydau, Bwyd a Phorthiant) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2003**
*NDM1635 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm Lefelau Gweddillion mewn Cnydau, Bwyd a Phorthiant) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2003, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2003, ac

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2003.

Cliciwch yma i weld Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm Lefelau Gweddillion mewn Cnydau, Bwyd a Phorthiant) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2003. Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno.
Cliciwch yma i weld Memorandwm Esboniadol. Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno.

**Eitem 7**
**Dadl ar Gynllun Gofodol Cymru**

*NDM1636 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn croesawu cyhoeddi "Pobl, Lleoedd, Dyfodol", y Cynllun Gofodol drafft ar gyfer Cymru a'r broses ymgynghori sy'n gysylltiedig ag ef.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:
(1)+(4)+(5)+(6)
(2)+(3)
(7)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Yn llinell 1, dileu 'Yn croesawu cyhoeddi' a rhoi 'Yn nodi cyhoeddiad hir-ddisgwyliedig’

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
' sy'n pwysleisio pa mor bwysig yw datblygu cynllun sy'n mynd i'r afael â phroblem tai fforddiadwy yng Nghymru.'

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
' sy'n dod â rhanbarthau Cymru'n nes at ei gilydd drwy wella cyfathrebu rhwng y Gogledd a'r De.'

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi'r cyfle posibl y mae'r cynllun hwn yn ei gynnig i ddatblygu a chynnal Cenedl Gymreig gynaliadwy.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i egluro'r berthynas rhwng y ddogfen strategol hon ac eraill gan gynnwys y Cynlluniau Datblygu Unedol a'r Strategaethau Cymunedol.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i sicrhau bod dadl lawn yn cael ei chynnal mewn Cyfarfod Llawn ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben.

Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi’r cyfrifoldeb am Gynllun Gofodol Cymru yn nwylo’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, sy'n gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy.

*Anfonwyd copïau electronig o "Pobl, Lleoedd, Dyfodol" drwy e-bost at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 30 Medi 2003. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

Cliciwch yma i weld *"Pobl, Lleoedd, Dyfodol"*

**Eitem 8**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
**NDM1637 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad 'GM Nation', sy'n dangos bod y cyhoedd ar hyn o bryd yn gwrthwynebu cynhyrchu cnydau GM ar raddfa fasnachol.

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i lynu at yr egwyddor ragofalus a mabwysiadu'r polisi sy'n gosod y cyfyngiad cyfreithiol mwyaf ar gnydau GM, waeth beth fo safbwynt Llywodraeth y DU, a hynny er mwyn cydnabod y perygl sylweddol y maent yn ei fygwth i'r diwydiant organig a'r risgiau posibl i iechyd pobl, iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw am adfer pwerau o'r Undeb Ewropeaidd yn ôl i'r Aelod Wladwriaethau o ran tyfu cnydau GM.'

*Mae'r ddogfen 'GM Nation' ar gael i'r Aelodau ei gweld ar y wefan ganlynol:* http://www.gmnation.org.uk/docs/GMNation_FinalReport.pdf- *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr***.** *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno.*

**Bydd y cyfarfod wedi gorffen erbyn 5.30pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 8 Hydref 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**